COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 158

Amseru: Arferol

Teitl: Cyfraniad tuag at y cynllun Ffitrwydd i Yrru

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Gofynnodd yr Heddlu a Gwasanaeth Asesu Symudedd a Gyrru Cymru i'r CHTh drafod y posibilrwydd o roi cymorth ariannol i'r sefydliad er mwyn iddo barhau i gynnal ei gyrsiau Ffitrwydd i Yrru. Mae'r Heddlu'n aml yn cyfeirio gyrwyr at Wasanaeth Asesu Symudedd a Gyrru Cymru ar gyfer asesiadau, ac mae'r sefydliad yn talu'r costau ei hun. Gofynnwyd am gyfraniad o £7512 er mwyn i'r sefydliad barhau i gynnal eu hasesiadau ar gyfer cyfeiriadau Dyfed-Powys. Cytunodd y CHTh i gynorthwyo'r sefydliad, a gwnaed cyfraniad o'r cronfeydd Ailhyfforddi Gyrwyr i'r sefydliad.

Argymhelliad:
Cyfrannu £7512 tuag at Wasanaeth Asesu Symudedd a Gyrru Cymru er mwyn i'r sefydliad barhau i gynnal eu hasesiadau Ffitrwydd i Yrru.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 24/1/2020